## SEFYLLFA BYD NATUR SIR GAERFYRDDIN – AMFFIBIAID AC YMLUSGIAID ADRAN 7 Â BLAENORIAETH (HERPETOFFAWNA)

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Adran 7 – Rhestrau bioamrywiaeth a'r ddyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth**.
Mae'r rhywogaethau sydd wedi'u rhestru yn y tabl hwn wedi'u cydnabod gan Lywodraeth Cymru fel rhan o restr o rywogaethau a mathau o gynefinoedd a geir yng Nghymru. Y mae'n ystyried bod y rhain o bwysigrwydd allweddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn y wlad hon. Mae'r rhestr (rhestr A7) yn cael ei hadolygu gan LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd.

Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus (ee, LlC, cynghorau) gymryd camau rhesymol i gynnal a gwella'r rhywogaethau a'r mathau o gynefinoedd sydd wedi'u cynnwys yn Adran 7, ac annog eraill i gymryd camau o'r fath. Drwy ddiogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn, gwella'r rheolaeth arnynt a chodi ymwybyddiaeth amdanynt, gobeithir y gellir cynnal amgylchedd natur gwydn yng Nghymru i'r dyfodol.


Y rhywogaethau Adran 7 yw'r rhywogaethau y mae Partneriaeth Natur Sir Gâr yn ystyried bod angen rhoi'r flaenoriaeth i weithredu yn eu cylch, ond mae rhywogaethau eraill wedi'u nodi ar gyfer gweithredu lleol, lle ceir ychydig o gofnodion, neu lle bo gan Sir Gaerfyrddin boblogaethau lle gellir helpu i warchod neu wella'r rhywogaeth drwy gymryd camau penodol.

Mae **cynefinoedd cysylltiedig** yn cyfeirio at y cynefinoedd Adran 7 perthnasol y rhoddir blaenoriaeth iddynt yng Nghymru.

Gweler www.arguk.org am ragor o wybodaeth a disgrifiadau manwl o rywogaethau

Defnyddiwyd pob llun gyda chaniatâd.

| RHYWOGAETHAU | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Cam gweithredu â blaenoriaeth a nodwyd |
|---|---|---|
| *Anguis fragilis* neidr ddefaid<br><br>© Kate Preston | • **Cynefin Cysylltiedig â Blaenoriaeth:** Bron unrhyw gynefin agored neu led-agored - maent yn eang eu gwasgariad ac i'w cael yn aml mewn gerddi.<br>• **Statws presennol:** Ymlusgiad mwyaf cyffredin Ynysoedd Prydain.<br>• **Tueddiadau:** ond wedi prinhau yn sgil colli cynefin addas.<br>• **Bygythiadau:** colli cynefin addas | • Codi ymwybyddiaeth ac annog pobl i'w cofnodi.<br>• Bydd creu ac adfer cynefinoedd ar raddfa'r dirwedd o fudd i'r rhywogaeth hon |
| *Bufo bufo* llyffant dafadennog<br><br>© Fred Holmes | • **Cynefin Cysylltiedig â Blaenoriaeth:** mae'n well ganddynt gyrff dŵr dyfnach, sy'n cynnwys pysgod, i fridio ynddynt. Mae ganddynt reddf fudol gref a byddant yn dilyn yr un llwybr yn ôl i byllau eu hynafiaid i fwrw eu grifft bob gwanwyn.<br>• **Statws presennol:** gwasgariad eang<br>• **Tueddiadau**: yn prinhau. Ni wyddom yn sicr pam, ond mae'n debygol bod darnio cynefinoedd a dwysáu gwaith ffermio wedi cyfrannu at hyn.<br>• **Bygythiadau:** colli cynefin yn sgil darnio llwybrau mudo i byllau bridio.<br>Ar gyfer cynlluniau ffyrdd newydd dylid cynnal arolygon o lwybrau mudo ac osgoi suddfannau dwr yn yr ardaloedd hynny. Dylid ystyried twneli bywyd gwyllt a defnyddio cwrbiau isel. Hefyd, wrth wella hen ffyrdd, dylid ystyried ôl-osod nodweddion addas ar lwybrau mudo. Dylid bod yn ofalus gydag ysgolion draen gan nad ydynt o reidrwydd yn ateb da i'r broblem.<br>• **Camau gweithredu cyfredol**<br>•Ôl-osod 'cwrbiau llyffant' ar lwybr mudo ym Mhorth Tywyn.<br>• Mae arwyddion Llyffantod ar rai croesfannau mudo yn Sir Gaerfyrddin ac mae gwirfoddolwyr yn cynnal 'patrolau croesi' yn y gwanwyn.<br>• Mae ARC wedi creu pyllau yn y sir yn rhan o brosiectau a ariannwyd drwy grant. Mae angen rhagor o byllau mawr. | • Annog cofnodion – mae'n debygol bod llyffantod yn cael eu tangofnodi yn y sir.<br>• Creu ac adfer pyllau bridio mawr i lyffantod, gyda gaeafleoedd mawr addas a choetir gerllaw |

| RHYWOGAETHAU | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Cam gweithredu â blaenoriaeth a nodwyd |
|---|---|---|
| | | |
| *Zootoca vivipara* madfall gyffredin  © Mark Barber | • **Cynefin Cysylltiedig â Blaenoriaeth:** Fe'i gwelir amlaf ar dir comin, rhostir, gweundir, waliau cerrig, argloddiau a chlogwyni ar yr arfordir o amgylch Ynysoedd Prydain.<br>• **Statws presennol: gwasgariad eang**<br>• **Tueddiadau:** Wedi prinhau dros y degawdau diwethaf yn sgil colli cynefin.<br>• **Bygythiadau:** colli cynefin. Wedi prinhau'n sydyn yn yr Iseldiroedd yn gysylltiedig â'r ffaith bod safleoedd yn sychu. Gallai cynefinoedd llaith/gwlyb fod yn allweddol er mwyn iddynt oroesi. | • Bydd creu ac adfer cynefinoedd ar raddfa'r dirwedd o fudd i'r rhywogaeth hon |
| *Natrix helvetica* neidr y gwair  © Pete Hill | •**Cynefin Cysylltiedig â Blaenoriaeth:** Tir Llwyd /Tir Fferm / Glaswelltir yr Iseldir a Gweundir/Gwlyptir<br>• **Statws presennol:** Oherwydd diffyg trefniadau monitro mae'n anodd pennu ei statws cadwraeth.<br>• **Tueddiadau: yn prinhau**<br>• **Bygythiadau:** Wedi prinhau yn lleol yn sgil colli safleoedd i ddodwy wyau a phorthi. | • Defnyddio toriadau llystyfiant, gan gynnwys toriadau gwair, dail marw a sglodion coed (cymysgedd sydd orau) i greu safleoedd addas i ddodwy wyau.<br>• Gwneud defnydd gofalus o dail (tail ceffylau'n bennaf) os ydynt ar y safle i greu safleoedd dodwy wyau, yn ogystal â bêls silwair a gwellt.<br>• Bydd creu ac adfer pyllau yn helpu'r rhywogaeth hon. |
| *Vipera berus* gwiber  © Chris Dresh | • **Cynefin Cysylltiedig â Blaenoriaeth:** Cynefinoedd agored fel gweundir, rhostir, coetir agored a thwyni tywod/clogwyni'r arfordir. Anaml y byddant yn crwydro i erddi.<br>• **Statws presennol:** yr ymlusgiad eang ei wasgariad sy'n prinhau gyflymaf.<br>• **Tueddiadau**: Rhywogaethau eang eu gwasgariad sy'n prinhau gyflymaf, o bosib yn sgil colli cynefin a chysylltedd.<br>• **Bygythiadau:** colli a darnio cynefinoedd | • Mae gan ARC brosiect sy'n canolbwyntio ar wiberod (drwy Natur am Byth) a all gynnwys safleoedd yn Sir Gaerfyrddin - mae angen mewnbwn gan bartneriaid a gwirfoddolwyr lleol.<br>• Mae angen canfod safleoedd gaeafgysgu i wiberod a gwarchod y safleoedd hynny. Mae angen rheolaeth fwy sensitif ar safleoedd gwarchodedig.<br>• Mae gwaith ar raddfa'r dirwedd ac i gysylltu nodweddion addas (gwrychoedd, eithin, rhedyn, grug, mieri) ar safleoedd yn bwysig.<br>• Mae'r ymchwil ddiweddaraf o Ewrop yn dangos bod gwlyptiroedd/pyllau yn hanfodol er mwyn sefydlu a chynyddu poblogaethau, ac er mwyn i wiberod ifanc oroesi. |